# LLIFED CYFIAWNDER




## Offrwm y Pasg 2024

Nodiadau i Arweinwyr

Merched Methodistaidd ym Mhrydain
dros ferched, dros gyfiawnder, dros Grist

Yr Eglwys Fethodistaidd

## Croeso

Cyfarchion a chroeso gan y Merched Methodistaidd ym Mhrydain (MWiB) sydd wedi cynllunio ac ysgrifennu'r gwasanaeth hwn.

Bydd casgliadau ariannol gaiff eu gwneud drwy rannu'r gwasanaeth hwn ar draws y wlad yn cefnogi gwaith y Partneriaid Cenhadol a'r eglwysi y maen nhw'n eu gwasanaethu mewn sawl rhan o'r byd; a bydd yn cyfrannu at gronfeydd argyfwng sy'n galluogi'r Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain, mewn cydweithrediad gyda'r Eglwys Fethodistaidd yn Iwerddon, i gefnogi ein Heglwysi a sefydliadau partner ar draws y byd wrth iddyn nhw ymateb i argyfyngau.

Mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ei gydlynu'n bennaf gan Maggie Woods (Cyd-gadeirydd MWiB y De).

## Meddyliau ar y Thema

> "Ond llifed barn fel dyfroedd,
> a chyfiawnder fel afon gref!"
> (Amos 5:24, BCN)

Mae thema'r gwasanaeth yn codi o ymwybyddiaeth nad yw cyfiawnder yn statig, ond yn hytrach ei fod yn llifo ymlaen gan ennill nerth ar draws cenedlaethau. Does dim modd datgan bod cyfiawnder wedi'i gyflawni byth. Yn hytrach, mae cyfiawnder yn ysbrydoli mwy o gyfiawnder o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae'r straeon sy'n cael eu hadrodd yn y Trefn Gwasanaeth yn adrodd am ffyrdd cadarnhaol y mae unigolion wedi mynd i'r afael â materion cyfiawnder.

Fel Methodistiaid, mae wynebu cyfiawnder yn rhan o'n ffordd o fyw wrth i ni ddyheu am gyfiawnder Duw yn y byd (**methodist.org.uk/SocialJustice**).

## Paratoi ar gyfer y Gwasanaeth

- Trefnwch i ddosbarthu'r amlenni Offrwm y Pasg. Anfonwch nhw at bob eglwys yn eich cylchdaith yn ystod y Grawys.
- Dylai pob trysorydd eglwys a chylchdaith gael copi o'r canllawiau/cyfarwyddiadau ariannol, sydd wedi eu cynnwys yn y nodiadau hyn.
- Mae posteri A3 ar gael i hysbysebu eich gwasanaeth gan Methodist Publishing (**methodistpublishing.org.uk/features/easter-offering-2024**). Gallwch ychwanegu'r manylion ar gyfer eich gwasanaeth eich hun. Mae modd lawrlwytho posteri A4 o wefan Merched Methodistaidd ym Mhrydain (**mwib.org.uk**).
- Byddai Cynrychiolydd Fforwm eich rhanbarth yn hoffi clywed gennych chi am eich gwasanaeth er mwyn gallu gwneud eraill yn ymwybodol o ble mae gwasanaethau'n cael eu cynnal yn lleol.
- Mae'r gweddïau sydd wedi eu hargraffu yn y gwasanaeth yn cynnwys ymatebion i'r gynulleidfa, sydd mewn print bras. Maen nhw wedi eu cynnwys yn y Trefn Gwasanaeth a'r cyflwyniad PowerPoint a ddarparwyd. Cofiwch ychwanegu unrhyw faterion perthnasol i'ch ardal neu'ch cymuned i'r gweddïau o eiriolaeth.
- Os oes gennych chi stori leol sy'n cyd-fynd â'r thema, efallai y byddwch am ei chynnwys yn lle un o'r straeon sydd wedi eu hargraffu er mwyn ychwanegu at ddylanwad y gwasanaeth.
- Mae'r straeon sydd yn y Trefn Gwasanaeth, cyflwyniad PowerPoint a phoster ar gael i'w lawrlwytho o **methodist.org.uk/EasterOffering**

Gallwch lungopïo unrhyw ran o'r gwasanaeth sydd ei hangen arnoch chi.

Dylai popeth fydd ei angen arnoch chi fod wedi'i gynnwys yn y nodiadau hyn. Gobeithio y byddwch yn mwynhau paratoi ar gyfer y gwasanaeth a chyfranogi ynddo.

## Myfyrdod ar y Darlleniad

Yn dilyn y darlleniad o Luc 18:1-8, efallai yr hoffech chi wahodd siaradwr i fyfyrio ar thema'r gwasanaeth neu roi cyfle i bobl

fyfyrio'n dawel wrth i gerddoriaeth gael ei chwarae, neu gallech chi ddefnyddio'r myfyrdod canlynol:

Mae'r ddameg hon yn ein hatgoffa nad yw cyfiawnder bob amser yn dod yn hawdd. Cawn ein cysuro fod Duw yn angerddol dros gyfiawnder a'i fod yn sylwi ar ein hanawsterau.

Bydd ffordd Duw yn ennill yn y pen draw. Ein her yw bod yn debyg i'r wraig weddw - dyfalbarhau, codi ein hunain eto a rhoi ail-gynnig.

Mae'r stori hefyd yn awgrymu ei bod hi'n iawn cyrraedd canlyniad cyfiawn hyd yn oed os nad ydyn ni'n gallu newid calonnau'r anghyfiawn. Dydy'r barnwr fan hyn ddim yn sydyn yn troi'n berson da, ond mae eisiau cael bywyd tawel.

Yn ein hymdrechion ein hunain i 'hybu cyfiawnder' (Micha 6:8 Beibl.net) efallai y byddwn yn dod wyneb yn wyneb â phwerau sy'n llwgr, yn hunanlesol neu'n ddidaro. Fe hoffen ni eu newid nhw, ond mae'r pwyslais yma ar ein bod yn newid y stori i'r bobl sy'n dioddef yn eu sgil.

Dywed Luc wrthym fod y stori yma yn ymwneud â dyfalbarhad wrth geisio cyfiawnder mewn gwirionedd yn ddameg am ddyfalbarhad wrth geisio Duw mewn gweddi.

## 'Hedyn cyfiawnder'

Efallai y byddwch am ddramateiddio darlleniad 'Hedyn cyfiawnder'. Gallech chi wneud hyn fel a ganlyn:

- Pennill 1: yn cael ei lefaru gan un person
- Pennill 2: un person gydag ail berson yn ymuno
- Pennill 3: mae ychydig mwy o bobl yn ymuno â'r ddau berson, gan ddal eu ffonau i fyny.
- Pennill 4: Mae eraill yn ymuno gyda microffon/uchel-seinydd a baneri/ arwyddion protest, ac eraill yn codi eu dwylo mewn gweddi.
- Mae pawb yn gwasgaru i bedwar cornel yr ystafell yn llafarganu 'Hadau cyfiawnder'.

## Gweithgareddau

Efallai y byddwch am gynnal gweithdy dydd i gwmpasu'r amrywiaeth o weithgareddau sy'n cael eu hawgrymu yn ogystal â'r gwasanaeth ei hun.

Gallai'r gweithgareddau gynnwys:

- Cynnal stondin masnach deg yn eich gwasanaeth, neu ffair fasnach deg yn eich eglwys. Mae'r Sefydliad Masnach Deg yn cynnig amryw o adnoddau ar gyfer cynnal digwyddiad, ewch i fairtrade.org.uk/get-involved  am fwy o wybodaeth.
- Creu cadwyn bapur o weddïau am gyfiawnder. Lawrlwythwch o methodist.org.uk/EasterOffering neu gallwch eu llungopïo o'r llyfryn hwn.
- Cynnal trafodaeth 'Hawl i Holi' ar thema cyfiawnder. Ystyriwch beth yw'r ffordd orau i drafod mentrau cyfiawnder lleol, yn ogystal â materion cenedlaethol neu fyd-eang.
- I'r ieuenctid (neu'r ifanc eu hysbryd) gellir defnyddio gêm ras marblis i fyfyrio ar sut y gall ein gweithgareddau ceisio cyfiawnder gael effaith dreigl. Trafodwch weithgareddau ceisio cyfiawnder y gallwn eu gwneud fel rhan o Lan Llanast neu fel gorsaf weddi.

## Emynau a Hawlfraint

Mae'r emynau yn y Trefn Gwasanaeth yn dod o *Ganeuon Ffydd* (*CFf*) ond efallai y byddwch eisiau defnyddio rhai gwahanol.

Dyma rai emynau eraill y gallech chi eu defnyddio:

Mae Iesu Grist yn aros *CFf* 870

Anfonodd Iesu fi *CFf* 866

Mae manylion hawlfraint yr emynau ar dudalennau cyntaf Caneuon Ffydd.

Os ydych chi'n bwriadu argraffu'r emynau sy'n dal o fewn hawlfraint, ychwanegwch eich rhif CCLI (*Christian Copyright Licensing International*) a/neu *One License* ar y sleid olaf ar ddiwedd y cyflwyniad.

## Cyllid/Rhodd Cymorth

Darllenwch drwy'r cyfarwyddiadau yma a gwnewch yn siŵr eu bod yn cael eu trosglwyddo i drysorydd eich eglwys, yr ysgrifennydd Rhodd Cymorth ac, yn bwysig, i drysorydd MWiB y gylchdaith. Mae modd lawrlwytho'r cyfarwyddiadau ar gyfer casglu Rhodd Cymorth ac anfon cyfraniadau gan ddefnyddio amlenni casglu Offrwm y Pasg fel taflen ar wahân o wefan yr Eglwys Fethodistaidd: **methodist.org.uk/GiftAid**

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn berthnasol i gasgliadau eglwysi unigol. Ond rydyn ni'n sylweddoli bod y rhan fwyaf o wasanaethau Offrwm y Pasg yn cael eu cynnal mewn gwasanaethau cysegru i'r gylchdaith/ardal gyfan; os felly gall eglwysi lleol wneud casgliad ar wahân, gyda swyddogion y gylchdaith yn derbyn cyfraniadau. Yn unol â chanllawiau CThEF mewn perthynas ag arferion gorau ar drafod a bancio cyfraniadau, argymhellwn yr opsiynau canlynol ar gyfer casglu ac anfon cyfraniadau gan ddefnyddio'r amlenni casglu Offrwm y Pasg. Mae eglwysi Methodistaidd lleol yn gallu hawlio Rhodd Cymorth ar eu Hoffrwm Pasg, naill ai drwy ddefnyddio ein Gwasanaeth Biwro Rhodd Cymorth neu'n uniongyrchol gan CthEF. Gellir hawlio Rhodd Cymorth drwy drydydd parti hefyd, os yw'r amodau canlynol yn cael eu cwrdd:

1. Bod eglwysi lleol yn bancio'r cyfraniadau hyn yn eu cyfrifon banc.
2. Bod eglwysi lleol yn anfon yr arian Rhodd Cymorth ymlaen at Gronfa Cenhadaeth y Byd. Mae'r cyngor hwn i Eglwysi Methodistaidd ar hawlio Rhodd Cymorth ar eu Hoffrwm Pasg felly yn seiliedig ar y ddealltwriaeth fod eglwysi lleol wedi ymarfer eu disgresiwn i sefydlu cronfa i gefnogi Cronfa Cenhadaeth y Byd. Mae canllawiau CthEF ar gasgliadau eglwysi a Rhodd cymorth ar gael ar wefan **gov.uk** ar **bit.ly/churchcollections**

**OPSIWN 1A**

**Casglu cyfraniadau a Rhodd Cymorth**

Yn yr un modd ag y mae casgliadau arbennig eraill yn cael eu derbyn (er enghraifft, All We Can, MHA neu Gymorth Cristnogol) gofynnwch i swyddogion eich eglwys (ysgrifenyddion Rhodd Cymorth neu debyg) i gasglu'r amlenni casglu Offrwm y Pasg wedi'u selio a'u cwblhau (gyda chyfraniadau arian parod/siec ynddyn nhw) y maen nhw wedi eu derbyn gan eu cynulleidfa. Dylid agor yr amlenni a rhoi'r arian i gyd i drysorydd yr eglwys (neu gyfatebol) i dalu'r cyfraniadau i mewn i gyfrif banc yr eglwys.

Os yw'r eglwys wedi derbyn a bancio'r cyfraniadau yng nghyfrif banc yr eglwys, rhaid i swyddogion yr eglwys gadw'r amlenni casglu Offrwm y Pasg gwag at bwrpas archwilio a chynnwys y cyfraniadau sydd wedi eu bancio ar ffurflen hawlio Rhodd Cymorth eu heglwys, sy'n cael ei hanfon at y Gwasanaeth Biwro Rhodd Cymorth.* NI ddylid anfon yr amlenni hyn at Adran Gyllid yr Eglwys Fethodistaidd yn Methodist Church House oni bai bod eich eglwys yn methu hawlio Rhodd Cymorth (gweler Opsiwn 2).

Dylai pob eglwys gadw'r amlenni hyn am chwe blynedd, yn unol â gofynion cadw cofnodion rhodd Cymorth. Rydyn ni'n annog pob eglwys i fabwysiadu'r opsiwn hwn os yn bosibl er mwyn hawlio Rhodd Cymorth ar y cyfraniadau.

*Mae Gwasanaeth Biwro Rhodd Cymorth yr Eglwys Fethodistaidd yn prosesu hawliadau Rhodd Cymorth dros tua 4,000 o eglwysi bob blwyddyn, gan hawlio tua £10m gan CThEF ar ran yr eglwysi hynny. Unwaith y bydd yr ad-daliad wedi'i brosesu bydd y Gwasanaeth Biwro'n trosglwyddo'r swm perthnasol i bob eglwys.

**OPSIWN 1B**

**Anfon cyfraniadau at Gronfa Cenhadaeth y Byd**

Unwaith y bydd eglwys wedi casglu a bancio ei gyfraniadau, gall wneud un o'r canlynol:

- Gall trysorydd yr eglwys ysgrifennu siec am gyfanswm yr arian a gyfrannwyd, yn daladwy i 'Methodist Church World Mission Fund' (bydd angen anfon siec arall pan gaiff swm y Rhodd Cymorth ei ad-dalu). Gall y siec am y cyfraniadau wedyn gael ei rhoi (neu ei hanfon) i Drysorydd MWiB yng ngwasanaeth cysegru Offrwm y Pasg y gylchdaith gyfan. Dylai'r holl sieciau wedyn gael eu casglu gan drysoryddion cylchdaith MWiB a'u bancio gan ddefnyddio'r llyfrau talu i mewn 'O2'.
- Os yw eglwysi'n methu dod i gysylltiad â thrysorydd MWiB y gylchdaith, gellir anfon sieciau at Adran Gyllid Methodist Church House gyda llythyr esboniadol yn nodi enw'r gylchdaith a'i rhif adnabod er mwyn priodoli'r cyfraniadau hynny'n gywir.
- Neu gall y cyfraniad cyfan gael ei dalu drwy drosglwyddiad BACS yn uniongyrchol i gyfrif banc Cronfa Cenhadaeth y Byd gan ddefnyddio'r wybodaeth ganlynol:

  **Cod didoli: 40-02-06**

  **Rhif cyfrif: 70951706**

  Os byddwch chi'n gwneud taliad gan ddefnyddio'r dull hwn, cofiwch gynnwys cyfeirnod eich cylchdaith gyda 02 yn dilyn. Er enghraifft, byddai cylchdaith rhif 18/9 yn defnyddio'r cyfeirnod 180902.

  Os oes lle nodwch enw eich cylchdaith hefyd. Mae'r wybodaeth hon yn sicrhau bod eich cyfraniad yn cael ei briodoli i'r gylchdaith iawn.

**OPSIWN 2**

Os nad yw'r eglwys yn gallu hawlio Rhodd Cymorth drwy Wasanaeth Biwro Rhodd Cymorth, neu os yw sieciau eisoes wedi eu gwneud yn daladwy i Gronfa Cenhadaeth y Byd, yna dilynwch y cyfarwyddiadau isod:

- Casglu cyfraniadau

  Bydd swyddogion eglwysig (ysgrifenyddion Rhodd Cymorth neu gyfatebol) yn casglu'r amlenni casglu Offrwm y Pasg, wedi eu selio a'u cwblhau (gyda chyfraniadau mewn arian parod neu siec) sydd wedi cael eu derbyn gan eu cynulleidfaoedd.
- Anfon cyfraniadau

  Dylai'r cyfraniadau (sieciau/arian parod) a'r amlenni Cymorth Rhodd gael eu hanfon at drysorydd MWiB y gylchdaith a fydd yn bancio'r cyfraniadau gan ddefnyddio'r llyfr talu i mewn 'O2' ac yn anfon amlenni at Adran Gyllid yr Eglwys Fethodistaidd yn Methodist Church House, gyda llythyr esboniadol yn nodi'r cyfraniadau sydd wedi eu bancio, enw'r gylchdaith, rhif adnabod y gylchdaith a dyddiad bancio'r arian.

  Os yw eglwysi'n methu dod i gysylltiad â thrysorydd MWiB y gylchdaith, gallan nhw anfon cyfraniadau ac amlenni'n uniongyrchol at yr Adran Gyllid yn Methodist Church House.

**Noder:** Os byddwch chi'n dewis yr opsiwn hwn, nid oes modd i eglwysi hawliau Cymorth Rhodd gan nad ydyn nhw wedi bancio'r cyfraniadau yn eu cyfrifon eu hunain. Yn y ddau achos, dylai sieciau fod yn daladwy i 'Methodist Church World Mission Fund' ac nid 'MWiB' ac ni ddylid eu hanfon at y Merched Methodistaidd ym Mhrydain.

Am ragor o wybodaeth am hawlio Cymorth Rhodd, rheolau Cymorth Rhodd a chwestiynau cyffredin ar Gymorth Rhodd, cysylltwch ag ysgrifennydd Cymorth Rhodd eich eglwys. Peidiwch ag anfon cyfraniadau at y Swyddfa Gyllid mewn arian parod. Talwch arian parod i mewn i gyfrif eich eglwys ac anfonwch siec neu drosglwyddo drwy BACS am yr un swm yn daladwy i 'Gronfa Cenhadaeth y Byd'.

I gael gwybod mwy am genhadaeth byd yr Eglwys ewch i: **methodist.org.uk/global-relationships**



Fy ngweddi dros gyfiawnder



Fy ngweddi dros gyfiawnder



Fy ngweddi dros gyfiawnder



Fy ngweddi dros gyfiawnder



Fy ngweddi dros gyfiawnder



Fy ngweddi dros gyfiawnder



Fy ngweddi dros gyfiawnder



Fy ngweddi dros gyfiawnder

Merched Methodistaidd ym Mhrydain

dros ferched, dros gyfiawnder, dros Grist

**mwib.org.uk**

Yr Eglwys **Fethodistaidd**

**methodist.org.uk/global-relationships**

Os hoffech chi wneud cais am yr adnodd hwn mewn fformat arall,
cysylltwch â ni i drafod eich anghenion ar publishing@methodistchurch.org.uk

Rhif elusen gofrestredig 1132208

© Ymddiriedolwyr at Ddibenion yr Eglwys Fethodistaidd 2024
GE302WELFR24